

## **Nodiadau Cyfarwyddo**

### **Hawlio eich Buddion Gohiriedig**

Os ydych wedi gadael y CPLIL ar ôl 31 Mawrth 2014, **bydd eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA) yn gysylltiedig â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (o leiaf 65 mlwydd oed) ac felly gall y dyddiad a ddangosir o dan Adran 2 newid yn y dyfodol.** Fodd bynnag, gallwch dderbyn taliad o'ch buddion o 55 mlwydd oed, ond efallai y bydd **gostyngiad** ymddeoliad cynnar yn berthnasol. Os ydych wedi gadael cyn 1 Ebrill 2014, bydd eich OPA yn fwy na thebyg yn 65 mlwydd oed, ond byddwch yn dal i allu derbyn taliad cynnar o'ch buddion yn wirfoddol o 55 mlwydd oed (yn amodol ar ostyngiad). Rhaid i'ch buddion cael eu talu cyn 75 mlwydd oed. Cyfeiriwch at wefan y Gronfa Pensiwn am ragor o wybodaeth ar hawlio eich buddion gohiriedig ar sail salwch.

### **Cyfrifo eich Buddion Gohiriedig**

Os ydych wedi gadael y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, bydd eich buddion o dan y cynllun Cyflog Terfynol wedi bod yn seiliedig ar eich aelodaeth hyd at y dyddiad gadael a'ch cyflog terfynol cyfwerth llawn amser. Bydd eich pensiwn blynyddol wedi cael eu cyfrifo fel; 1/80fed x aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008 (os yn berthnasol) x eich cyflog terfynol **ynghyd ag** 1/60fed x aelodaeth o 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014 (os yn berthnasol) x eich cyflog terfynol. Os ydych wedi gadael ar ôl 31 Mawrth 2014, byddwch hefyd wedi cronni pensiwn o dan y cynllun Cyfartaledd Gyrfa Wedi'i Adbriso ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2014 hyd at eich dyddiad gadael; 1/49fed (neu 1/98eg os yn yr adran 50/50) x y tâl pensiynadwy Cyfartaledd Gyrfa a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn. Ar gyfer unrhyw aelodaeth cyn 1 Ebrill 2008, byddwch hefyd yn derbyn lwmp swm di-dreth awtomatig o **3 gwaith** eich pensiwn 80fed, yn ogystal â'r opsiwn i roi'r gorau i ran o'ch pensiwn ar gyfer rhagor o arian parod di-dreth. Fodd bynnag, os ydych wedi ymuno ar ôl 1 Ebrill 2008, **NI** fyddwch yn derbyn lwmp swm di-dreth awtomatig, ond gennych yr opsiwn i roi'r gorau i ran o'ch pensiwn i dderbyn arian parod di-dreth.

Sylwch fod unrhyw addasiad a wnaed o ganlyniad i ddebyd Cynllun (os yw'n berthnasol), naill ai o weithredu Gorchymyn Rhannu Pensiwn a / neu etholiad Cynllun yn Talu Lwfans Blynyddol, wedi'i ddiwydd fel rhan o gyfrifiad terfynol eich buddion gohiriedig.

### **Cyfraniadau Ychwanegol**

Os ydych wedi talu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) / CPY Cost a Rennir / Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (CRHY), neu os ydych wedi prynu Blynyddoedd Ychwanegol, mae'r gwerth cymesur eich contract wedi'i gynnwys yn eich buddion. Os ydych wedi talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY), byddwch yn derbyn datganiad ar wahân oddi wrth ddarparwr mewnol y Gronfa.

### **Eich Grant Marwolaeth Ohiriedig a Pensiwn Goroeswr Blynyddol**

Os ydych wedi gadael cyn 1 Ebrill 2008, mae grant marwolaeth o **3 gwaith** eich pensiwn gohiriedig yn daladwy yn unol â'ch Mynegiant Dymuniad, os byddwch yn marw cyn i'ch buddion cael eu talu. Os ydych wedi gadael ar ôl 31 Mawrth 2008, mae grant marwolaeth o **5 gwaith** eich pensiwn gohiriedig yn daladwy. Fodd bynnag, os ydych hefyd yn aelod actif neu os ydych yn ail-ymuno â'r CPLIL, y grant marwolaeth sy'n daladwy fydd y mwyaf o naill ai eich grant marwolaeth ohiriedig (5 gwaith eich pensiwn gohiriedig) neu eich grant marwolaeth actif h.y. 3 gwaith eich Cyflog Pensiynadwy Tybiedig (CPT) yn eich swydd newydd. **NODER NAD yw lwmp swm grant marwolaeth yn daladwy yn awtomatig i'ch perthynas agosaf. Er mwyn gwneud neu newid eich Mynegi Dymuniad, cysylltwch â'r Gronfa Pensiwn.**

Os ydych wedi gadael ar neu cyn 31 Mawrth 2008, mae pensiwn goroeswr yn daladwy i'ch priod, partner sifil cofrestredig ac unrhyw blant cymwys. Fodd bynnag, os ydych wedi gadael ar ôl y dyddiad hwn, mae hefyd yn cael ei dalu i Bartner Cyd-fyw gymwys, yn ddarostyngedig bod amodau cymhwysio penodol yn cael eu bodloni. (Yn flaenorol roedd yn ofynnol i chi enwebu Partner Cyd-fyw, ond **NID YW** hyn angenrheidiol o 1 Ebrill 2014). Mae'r pensiwn a ddangosir wedi ei seilio ar y buddion goroeswr Cyflog Terfynol a gronwyd hyd at 31 Mawrth, 2014 neu i'ch dyddiad gadael os yn gynharach, a'r buddion goroeswr dyledus o dan y cynllun Cyfartaledd Gyrfa o 1 Ebrill 2014 i'ch dyddiad gadael (os yw'n berthnasol). Tra bydd y pensiwn a dalwyd i'ch priod neu eich partner sifil cofrestredig yn seiliedig ar eich **HOLL** aelodaeth, dim ond yr aelodaeth o 6 Ebrill 1988 bydd yn cael ei gynnwys os telir i'ch partner cyd-fyw cymwys (oni bai eich bod wedi talu am ran neu'r cyfan o'r aelodaeth i gyfrif). Hefyd, **NI FYDD** pensiwn goroeswr sy'n daladwy i weddw o briodas sydd wedi cymryd lle ar ôl gadael yn cynnwys unrhyw aelodaeth a gronwyd cyn Ebrill 6, 1978, ac **NI FYDD** pensiwn gwr gweddw o briodas ar ôl gadael / goroeswr o'r un rhyw o briodas ar ôl gadael neu bartner sifil cofrestredig o bartneriaeth sifil a gofrestrwyd ar ôl gadael yn cynnwys unrhyw aelodaeth cyn 6 Ebrill, 1988.

### **Ail-ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)**

Os ydych yn ail-ymuno â neu eisoes wedi ail-ymuno â'r CPLIL mewn Cronfa arall yng Nghymru neu Loegr, mae'n rhaid i chi: **a)** hysbysu'r awdurdod gweinyddu'r Gronfa yr ydych yn aelod actif ohono eich bod gyda buddion gohiriedig mewn Cronfa CPLIL arall yng Nghymru neu Loegr; **b)** hysbysu'r Gronfa ble mae eich buddion gohiriedig yn cael eu cadw eich bod yn aelod actif yn y Gronfa CPLIL arall yng Nghymru neu Loegr, ac; **c)** hysbysu'r awdurdod gweinyddu'r Gronfa yr ydych yn aelod actif ohono o unrhyw wasanaeth cyfamserol mewn unrhyw gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill (hyd yn oed os yw ad-daliad o gyfraniadau wedi ei dderbyn mewn perthynas â'r gwasanaeth). Mae eitemau **(a)** a **(b)** yn ofynnol i sicrhau eich bod yn cael y dewisiadau priodol ynghylch cyfuno eich buddion. Mae methu â chydymffurfio ac eitem **(c)** yn gallu arwain at beidio cymhwyso rhai hawliau statudol i'ch amgylchiadau, e.e. cyswllt cyflog terfynol os byddwch yn penderfynu cyfuno unrhyw aelodaeth CPLIL cyn Ebrill 1 2014.

### **Trosglwyddo eich Buddion Gohiriedig o'r CPLIL**

Efallai y gallwch drosglwyddo eich buddion Cynllun i drefniant pensiwn arall, ond rhaid i chi wneud hynny o leiaf 12 mis cyn eich Oedran Pensiwn Arferol (OPA). Fodd bynnag, argymhellir yn gryf ichi derbyn cyngor ariannol annibynnol cyn i chi fynd ati i wneud hynny.

### **Menter Twyll Genedlaethol (MTG)**

Nodwch y gall data allweddol cael ei ddarparu i gyrrff sy'n gyfrifol am archwilio a gweinyddu arian cyhoeddus er mwyn canfod ac atal twyll. Am fwy o fanylion, ewch i wefan y Swyddfa Archwilio Cymru: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk) neu cysylltwch â'r Gronfa Pensiwn.

### **Cysylltwch â ni:**

Cyfeiriad E-bost: [pensiynau@gwynedd.llyw.cymru](mailto:pensiynau@gwynedd.llyw.cymru) Gwefan: [www.cronfabensiwnwynedd.cymru](http://www.cronfabensiwnwynedd.cymru)

Cyfeiriad: **Adain Pensiynau, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**